*This document is available in English* **Eitem Agenda 7**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru** |
| Dyddiad | **20 Hydref 2025** |
| Swyddog Arweiniol | **Amherthnasol** |
| Swyddog Cyswllt | **Gwasanaethau Aelodau** (members.services@northwalesfire.gov.wales) |
| Pwnc | **Adroddiad y Cadeirydd** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Mae’r adroddiad chwarterol hwn yn rhoi gwybodaeth i'r Aelodau am y cyfarfodydd a'r digwyddiadau yr aeth Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) iddynt yn rhinwedd eu swyddi rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2025.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Mae'r Cadeirydd a/neu'r Dirprwy Gadeirydd wedi mynd i nifer o gyfarfodydd a digwyddiadau, yn fewnol ac yn allanol, ar ran yr Awdurdod.

**ARGYMHELLIAD**

3 Bod yr Aelodau’n:

**i) Nodi’r wybodaeth a roddir.**

**ARSYLWADAU GAN Y PANEL GWEITHREDOL/PWYLLGOR ARCHWILIO**

4 Nid yw'r adroddiad hwn wedi cael ei ystyried o'r blaen.

**GWYBODAETH**

5 Yn ogystal â'r cyfarfodydd sy'n gysylltiedig â'r Awdurdod, mae'r Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd hefyd wedi cwrdd â’r Prif Swyddog Tân (PST) yn rheolaidd.

6 Ar 11 Gorffennaf, aeth y Dirprwy Gadeirydd i Orsaf Dân Llanfairfechan ar gyfer Seremoni Wobrwyo Ffenics disgyblion Ysgol Eirias, Bae Colwyn.

7 Ar 14 Gorffennaf, ymunodd y Cadeirydd a'r Prif Swyddog Tân â chyfarfod ar-lein o'r Fforwm Partneriaeth Gymdeithasol, a oedd yn cael ei gadeirio gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai a Llywodraeth Leol.

8 Ar 18 Gorffennaf, aeth y Dirprwy Gadeirydd i Orsaf Dân Llanfairfechan ar gyfer Seremoni Wobrwyo Ffenics disgyblion Ysgol Bryn Eilian.

9 Ar 25 Gorffennaf, ymunodd y Cadeirydd â chyfarfod ar-lein Gweithrediaeth CLlLC i gynrychioli Cadeiryddion yr Awdurdod Tan ac Achub.

10 Ar 20 Awst, ymunodd y Cadeirydd â chyfarfod ar-lein y Bwrdd Gwella Diwylliannol.

11 Ar 20 Awst, bu'r Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd yn eistedd ar Banel Gweithdrefn Datrys Anghydfodau Mewnol i ddyfarnu ar apêl Cam 2.

12 Ar 5 Medi, ymunodd y Cadeirydd â chyfarfod ar-lein Partneriaeth Ranbarthol Gogledd Cymru.

13 Ar 19 Medi, aeth y Cadeirydd i Orsaf Dân Porthaethwy ar gyfer Seremoni Wobrwyo Ffenics disgyblion Ysgol Uwchradd Caergybi.

14 Ar 26 Medi, ymunodd y Cadeirydd â chyfarfod ar-lein Gweithrediaeth CLlLC.

15 Ar 26 Medi, aeth y Cadeirydd i Orsaf Dân Porthaethwy ar gyfer Seremoni Wobrwyo Ffenics disgyblion Ysgol Uwchradd Bodedern.

16 Ar 29 Medi, cyfarfu'r Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd â Chadeirydd y Pwyllgor Safonau ym Mhencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth).

17 Ar 30 Medi, aeth y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd y Seremoni Wobrwyo Staff yn Venue Cymru.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Amherthnasol. |
| Cyllideb | Mae unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â chyfarfodydd a digwyddiadau y mae aelodau'n mynd iddynt yn cael eu had-dalu o'r gyllideb teithio a chynhaliaeth. |
| Cyfreithiol | Does dim goblygiadau penodol yn codi yn sgil cymeradwyo'r argymhelliad. |
| Staffio | Does dim goblygiadau penodol yn codi yn sgil cymeradwyo'r argymhelliad. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/ Y Gymraeg | Does dim goblygiadau penodol yn codi yn sgil cymeradwyo'r argymhelliad. |
| Risgiau | Does dim risgiau penodol yn codi yn sgil cymeradwyo'r argymhelliad. |